**Gweithdy Cynhyrchu Incwm**

**17 Medi 2025**

**<u>Aelodau yn Bresennol:</u>**
Y Cynghorydd C George (Cadeirydd)
Y Cynghorydd D Clements, Dr M Havard, Mrs S Hoss, a Dr R Plummer.

**<u>Swyddogion yn Bresennol:</u>**
Catrin Evans, Georgia Jones (Cofnodion), Tegryn Jones, Gary Meopham, Jessica Morgan, a Sara Morris.

[Ar-lein, 12:30–14:10]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Katie Macro.

**2. Cofnodion**
Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 02 Gorffennaf 2025.

**Nodwyd.**

**3. Diweddariad ar y Mesurau Arbed Costau Heblaw am Staff**
Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y camau a gymerwyd o ran y mesurau arbed costau heblaw am gostau staff, fel y trafodwyd yn flaenorol yn y gweithdy ar yr 2ail o Ebrill 2025.

O ran y daenlen atodedig oedd yn rhestru'r mesurau arbed costau heblaw am staff, cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai dim ond ar ôl cyflwyno adroddiad ffurfiol a thrafodaeth mewn cyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol y byddai eitemau yn cael eu dileu o'r rhestr.

Fel y gofynnwyd gan Aelod, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y cymorth ariannol i Ironman, a chadarnhaodd bod Swyddogion yr Awdurdod yn aros am ragor o wybodaeth oddi wrth Cyngor Sir Penfro cyn cyflwyno adroddiad gerbron cyfarfod o’r Awdurdod yn y dyfodol i'r Aelodau ei ystyried.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch effaith bosibl y gwahanol gynigion ar y staff. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y cynigion ar Lwfansau Parcmyn a Defnyddwyr Ceir Hanfodol wedi derbyn adborth negyddol gan y staff, ond eglurwyd bod y lwfansau yn hanesyddol ac yn anghyfartal yn eu dosbarthiad. Ychwanegwyd bod Awdurdodau lleol eraill a Pharciau

Cenedlaethol eisoes wedi rhoi'r gorau i'r lwfansau hyn. O ran lwfans y Parcmyn, eglurodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu bod y lwfans wedi'i dalu yn hanesyddol i'r Parcmyn am weithio oriau ychwanegol ac oriau anghymdeithasol, ond bod yr Awdurdod bellach yn anelu at gynnal dull cyson ar draws pob swydd. Mewn ymateb i Aelod, cadarnhawyd nad oedd yr Awdurdod yn talu goramser, a bod lwfans y Parcmyn wedi'i ystyried fel rhan o'r Adolygiad diweddar o'r Cyflogau a Graddfeydd, ond nad oedd unrhyw elfennau uniongyrchol yn yr adolygiad oedd yn amlygu oriau anghymdeithasol.

Fel y gofynnwyd gan Aelod, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y cytundeb newydd gyda Helly Hansen ar ddarparu gwisg swyddogol i'r staff, a rhoddodd amlinelliad o fanylion y cytundeb a'r amserlen ddiweddaraf. Ychwanegwyd, er mwyn lleihau gwastraff, y gellid parhau i ddefnyddio dillad presennol Columbia am 2 flynedd arall.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Swyddogion wedi cwblhau'r hyfforddiant caffael yn ddiweddar oedd yn amlygu'r angen am i'r Awdurdod gael fframwaith caffael. Ychwanegwyd, yn dilyn trafodaethau, y byddai'r fframweithiau caffael gofynnol yn debygol o gael eu datblygu mewn cydweithrediad â'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru ac y byddent yn ystyried elfennau megis contractwyr, cyfieithu a gwaith cynnal a chadw.

Awgrymodd Aelod y byddai rhestr o'r contractau a'r cytundebau cydweithredu gydag amserlenni yn galluogi'r Aelodau i feddwl yn fwy strategol yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gadw Cofrestr Contractau, ac y gellid creu cofrestr ar wahân ar gyfer cytundebau cydweithredu.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor yn y dyfodol er mwyn i'r Aelodau ystyried dull yr Awdurdod o ymdrin â digwyddiadau gan fod nifer o ddigwyddiadau wedi derbyn cymhorthdal er gwaethaf bod y gwaith cydlynu, rheoli a chyflwyno'r digwyddiadau hyn yn cymryd cryn dipyn o amser y staff.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod Swyddogion o'r farn bod y Gweithgor Cynhyrchu Incwm yn werthfawr gan ei fod yn gyfrwng i sbarduno cymryd camau ymlaen ac yn rhoi cyfle i'r Swyddogion drafod materion mewn cyfarfod llai ffurfiol.

**Nodwyd.**

**4. Y Tâl a godir a’r Cyfleusterau Toiledau yn y Meysydd Parcio Arfordirol**

Roedd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu wedi rhoi cyflwyniad ar y tâl a godir am barcio a’r cyfleusterau toiledau yn y meysydd parcio arfordirol yn dilyn cais a dderbyniwyd oddi wrth Cyngor Sir Penfro am gymorth ariannol i gadw’r toiledau arfordirol ar agor am gyfnod pellach o fis Ebrill 2026 i fis Ebrill 2028. Roedd y cyflwyniad yn nodi’r cais ariannol, yr asesiadau blaenorol a wnaed gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNPA) ar fater cyfleusterau toiledau, a’r goblygiadau posibl o godi’r taliadau parcio i gefnogi'r cais hwn, ynghyd â gwelliannau eraill i’r meysydd parcio arfordirol a'u hamgylchoedd ehangach.

Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at y ffaith bod y meysydd parcio yn ffynhonnell allweddol o incwm i'r Awdurdod. Fodd bynnag, roedd y costau wedi cynyddu, a’r pwysau chwyddiant yn amlwg yn y maes hwn. Amlinellodd y Swyddog ddau opsiwn posibl ar y modd y gallai'r Awdurdod fwrw ymlaen, naill ai cynyddu’r taliadau parcio yn unol â chwyddiant neu gynyddu’r taliadau parcio ymhellach i liniaru’r pwysau ariannol ar y swyddogaeth meysydd parcio.

O ran y cyfleusterau toiledau, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cais am ragor o gyllid gan y cytunwyd yn wreiddiol y byddai APCAP yn rhoi cymorth ariannol tuag at gynnal y toiledau cyhoeddus am gyfnod byr o ddwy flynedd yn unig, hyd at fis Ebrill 2026. Yn ogystal, nododd yr Aelodau nad oedd Cyngor Sir Penfro wedi gwneud unrhyw gamau ymlaen i ddatblygu dull mwy cynaliadwy a strategol o ymdrin â thoiledau ers y cais cyntaf am gyllid a wnaed yn 2023. Cytunwyd bod cyfleoedd wedi'u colli gan nad oedd CSP wedi gwneud cais am gyllid grant perthnasol megis Y Pethau Pwysig.

Nodwyd hefyd, yn ogystal â chostau’r contract ar gyfer pob cyfleuster toiled a’r cynnydd yn y mynegai prisiau defnyddwyr, bod £2,000 ychwanegol fesul toiled, y flwyddyn, ar gyfer gwelliannau wedi’i gynnwys yn y cais gan CSP. Cytunodd yr Aelodau i beidio â chefnogi’r cais ychwanegol am gyllid o £2,000 fesul toiled, y flwyddyn, gan y bernid y dylai CSP fod yn gyfrifol am ariannu gwelliannau yn y dyfodol.

Nodwyd bod y cyfleuster toiled yn Saundersfoot yn cynhyrchu incwm, fodd bynnag, dywedodd y Swyddogion bod problemau wedi codi yn y lleoliad hwn gan nad oedd y mecanwaith talu yn addas at y diben. Cadarnhawyd bod CSP yn bwriadu gosod mecanwaith talu newydd yn y lleoliad hwn.

Tynnodd y cyflwyniad sylw at ymrwymiadau ariannol eraill yr Awdurdod, ac ymhlith yr ymrwymiadau hyn roedd sawl gorsaf ail-lenwi dŵr, y gwasanaeth Parcio a Theithio yn Ninbych-y-pysgod, y Cynllun Cadeiriau Olwyn y Traeth, y Gwasanaeth Bysiau Arfordirol a'r cynllun Lonydd Glas Sir Benfro, gwaith ehangach ar yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a chais posibl yn y dyfodol i gefnogi mesurau Achub Bywyd. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai canlyniad y trafodaethau ar yr Ardoll Ymwelwyr arfaethedig yn hysbys ymhen dwy flynedd, ac felly awgrymodd, pe na bai'r Awdurdod yn elwa o'r ardoll, y dylai pob cyfraniad gan APCAP ddod i ben yn ddi-oed.

Tynnodd Aelod sylw at y diffyg cydraddoldeb o ran cyfleusterau cyhoeddus ar hyn o bryd gan fod rhai cymunedau yn gyfrifol am ariannu eu cyfleuster toiled lleol tra nad oedd yn ofynnol i gymunedau eraill wneud hynny. Cytunodd yr Aelodau y byddai angen dull mwy strategol i sicrhau dyfodol y cyfleusterau toiledau ac y byddai'n briodol i'r Swyddogion nodi amodau yn eu hymateb i CSP, pe bai'r cais pellach am gymorth yn cael ei gytuno.

O ran y cynnydd posibl yn y taliadau parcio, manteisiodd Swyddog Ystadau yr Awdurdod ar y cyfle i bwysleisio, pe bai'r Awdurdod yn codi'r taliadau parcio y tu hwnt i chwyddiant, y gellid herio'r penderfyniad yn gyfreithiol. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi ceisio cyngor cyfreithiol ar y mater ac wedi cael cyngor i roi eglurhad clir ar y cysylltiad rhwng unrhyw gynnydd posibl yn y taliadau parcio â dibenion ehangach y Parc.

Yn dilyn y drafodaeth hon, dywedwyd y byddai dau adroddiad ar wahân yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i'r Aelodau gytuno'n ffurfiol ar y modd o fwrw ymlaen â materion taliadau parcio a chyfleusterau toiledau yn y meysydd parcio arfordirol.

**Nodwyd.**

5. **Cyfarfodydd yn y dyfodol**
   Cynigiwyd mai 19 Tachwedd 2025 fyddai dyddiad y cyfarfod nesaf.